



LLENWCH ADRANNAU 1-5 YN LLAWN:			
Enw Cyntaf		Cyfenw	
Rhif Myfyriwr		Rhyw	
Oedran		Rhif Ffôn	
Dyddiad Symud Allan			
Cyfeiriad Prifysgol Presennol			
Cyfeiriad Anfon Ymlaen			

1. Rwy'n cadarnhau fy mod yn: (rhowch gylch)	
1. Tynnu'n ôl o'm hastudiaethau YDW / NAC YDW	A yw eich Adran neu'r Swyddog Derbyn yn gwybod hyn? Ni fydd eich rhwymedigaeth yn dod i ben tan i chi wneud felly. YDY / NAC YDY
2. Gohirio fy astudiaethau YDW / NAC YDW	
3. Heb gofrestru / ddim yn dechrau'r cwrs YDW / NAC YDW	
4. Teithio o adref YDW / NAC YDW	Am rwymedigaethau ariannol 1-5, gweler tros y ddalen
5. Symud i lety preifat YDW / NAC YDW	

2. Rhowch reswm pam eich bod am ganslo'ch contract llety:

3. Ni fydd eich rhwymedigaeth yn dod i ben tan i'r canlynol gael eu cwblhau:
<ul style="list-style-type: none"> Glanhau'ch ystafell a symud yr holl sbwriel Dychwelyd pob allwedd i'r Swyddfa Safle briodol (gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u labelu) Derbyn Hysbysiad o Ddiwygio Trwydded Preswylfa

- Nid yw llenwi'r ffurflen hon yn golygu y caiff eich cais ei gymeradwyo. Ni chewch eich rhyddhau tan i chi dderbyn Hysbysiad Rhyddhau o Denantiaeth.
- Sylwer, os ydych yn tynnu'n ôl neu'n gohirio'ch astudiaethau, neu os nad ydych yn dechrau'ch cwrs, cewch eich rhyddhau chwe wythnos (ar ddydd Gwener) o ddyddiad y cais, unwaith i'r uchod gael eu cwblhau. Bydd hyn yn eich galluogi i aros yn eich llety tan i chi allu gwneud cynlluniau addas.
- Os hoffech siarad â rhywun, trefnwch apwyntiad.
- A ydych wedi darllen a deall yr wybodaeth tros y ddalen? YDW / NAC YDW

4. LLOFNOD: _____ DYDDIAD: _____

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG:	CWBLHAWYD		CWBLHAWYD
1. FFURFLEN AR Y SYSTEM AC WEDI'I GWIRIO		5. HYSBYSWYD YR ADRAN ARLWYO	DO / NADDO / DD/G
2. DYCHWELWYD YR ALLWEDDI		6. FFI NEWID WEDI'I HYCHWANEGU	DO / NADDO / DD/G
3. DYDDIADAU CONTRACT WEDI'U NEWID?		7. HYSBYSIAD DIWYGIO TRWYDDED WEDI'I ANFON	DO / NADDO / DD/G
4. DERBYNIWYD GWYBODAETH GAN ACADEMYDD		8. ANFONWYD LLYTHYR CYFRIF DIWYGIEDIG	DO / NADDO / DD/G

PWYSIG – SYLWER

Ni chewch eich rhyddhau tan i chi dderbyn Hysbysiad Rhyddhau o Denantiaeth swyddogol. Caiff pob e-bost ei anfon at eich cyfrif myfyriwr (@abertawe.ac.uk).

Os oes gennych unrhyw broblem neu bryder penodol yr hoffech eu trafod yn bersonol, mae croeso i chi **gysylltu â ni** i drefnu apwyntiad. Caiff yr holl wybodaeth ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

Os ydych am gael eich rhyddhau o'ch contract, dylech dderbyn hyn fel rhybudd y **byddwn nawr yn dangos eich ystafell** i denantiaid posib er mwyn symud y broses yn ei blaen. Rhaid i chi roi gwybod i ni os NAD YDYCH yn fodlon i ni ddangos eich ystafell i bobl eraill.

Mae myfyriwr sy'n derbyn lle yn llety'r Brifysgol yn gwneud hynny am y cyfnod llawn a ddangosir ar ei contract, sef blwyddyn academiaidd lawn fel arfer, neu'r rhan o'r flwyddyn sydd yn weddill.

Os ydych yn parhau i astudio yn y Brifysgol, bydd eich tenantiaeth yn parhau am y cyfnod llawn a byddwch yn atebol i dalu'r ffioedd llety yn llawn.

1. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL

Sylwer bod rhaid derbyn cadarnhad o Dynnu'n Ôl/Gohirio Astudiaethau gan y Gofrestrfa Academiaidd cyn i chi gael eich rhyddhau o'ch contract ac yr addasir eich cyfrif. Mae eich cyfnod rhybudd yn lleiafswm o chwe wythnos o'r dyddiad y mae'r Gwasanaethau Preswyl yn derbyn y ffurflen hon. Bydd hyn yn eich galluogi i aros yn eich llety tan i chi allu gwneud cynlluniau addas. Gall ad-daliadau gymryd hyd at wyth wythnos i'w prosesu wedi i chi dynnu'n ôl yn swyddogol.

1, 2 a 3) Tynnu'n Ôl / Gohirio'ch Astudiaethau / Ddim yn Dechrau'r Cwrs – Os ydych yn cyflwyno cais ar y seiliau hyn, bydd cyfnod rhybudd o chwe wythnos yn gymwys, oni bai y gallwn ddod o hyd i denant yn gynt, fel yr amlinellir yn eich cytundeb trwydded. Os down o hyd i denant newydd yn gynt, bydd rhaid i chi dalu Ffi Rhyddhau o Denantiaeth cyfwerth â'ch Blaendal Cadw Lle. Nid oes angen i chi adnewyddu'r cais hwn. *e.e. Os cyflwynwch y ffurflen ar ddydd Iau, 6 Tachwedd, bydd eich cyfnod rhybudd yn dechrau ar ddydd Gwener, 7 Tachwedd, a bydd angen i chi dalu'r rhent am y chwe wythnos nesaf tan i chi gael eich rhyddhau ar ddydd Gwener, 19 Rhagfyr. Am fod y rhent yn cael ei dynnu o'ch cyfrif fesul tymor, caiff eich cyfrif ei addasu i adlewyrchu hyn, a chaiff unrhyw ad-daliad neu gostau eu prosesu drwy ein Hadran Gyllid.*

4 a 5) Ceisiadau am ryddhau o contract – peidiwch ag arwyddo tenantiaeth arall y tu allan i lety'r Brifysgol tan i chi gael eich rhyddhau'n swyddogol o'ch contract, oherwydd bydd rhaid i chi dalu rhent am y ddau contract. Bydd swyddfa ganolog y Gwasanaethau Preswyl yn cadarnhau eich rhyddhad o'r contract yn swyddogol drwy hysbysiad newid/ffurflen ryddhau, y bydd yn amlinellu'ch rhwymedigaethau ariannol hefyd.

Mae myfyriwr sy'n derbyn lle yn llety'r Brifysgol yn gwneud hynny am y cyfnod llawn a ddangosir ar ei contract, sef blwyddyn academiaidd lawn fel arfer, neu'r rhan o'r flwyddyn sydd yn weddill.

- Os bydd y Brifysgol yn dod o hyd i denant newydd addas yn gynt (nad yw'n byw yn llety'r Brifysgol ar hyn o bryd) i gymryd gweddill y contract, **bydd rhaid i chi dalu Ffi Rhyddhau o Denantiaeth cyfwerth â'ch Blaendal Cadw Lle.**

Dylai myfyriwr sydd am wneud sylw/cwyn am eu llety gwblhau'r [Weithdrefn Apeliadau Tenantiaeth](#), sydd ar gael ar wefan A-Y Llety yn www.swansea.ac.uk/cy/llety/a-z, a'i dychwelyd i'r Gwasanaethau Preswyl yn accommodation@abertawe.ac.uk.

Gwasanaethau Preswyl, Llety Penmaen, Prifysgol Abertawe, Parc Singleton, Abertawe SA2 8PG